# Llwybr Powdr Gwn
# Gunpowder Trail

LLWYBR TRAIL 4



Gwaith Powdr Gwn/Gunpowder Works


| | DECHRAU START | Tir dan draed Terrain | Y Ffactor Waw Wow Factor | Torfeydd Crowds | Amser Time | Pellter Distance |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LLWYBR TRAIL 4 | Maes parcio Craig y Ddinas<br>Cyfeirnod grid: SN 911079<br>Dinas Rock car park<br>Grid reference: SN 911079 | 1 | 2 | 2 | 1.5 awr/ hours | 1.5 milltir/ miles (2.4 km) |

**Mae'r llwybr gwastad hwn ar hyd hen dramffordd yn mynd igam ogam o dan ochrau creigiog ceunant Mellte, i ddatgelu olion rhyfedd Gwaith Powdr Gwn Glynnedd.**

Dechreuwch ar eich taith ym maes parcio Craig y Ddinas, a chroeswch yn ofalus yn ôl dros y bont gul sy'n cario'r ffordd. Cadwch i'r dde gan ddilyn llwybr heibio'r Neuadd Bentref ac ar hyd glan Afon Mellte.

**Unearthing the curious remains of the Glyn-neath Gunpowder Works, this flat route along a former tramroad weaves its way beneath the craggy sides of the Mellte gorge.**

Starting your walk from Dinas Rock car park, carefully cross back over the narrow road bridge and keep right following the track past the Village Hall and alongside the River Mellte.




Erbyn hyn, dyma le diarffordd a thawel, ond arferai fod yn lleoliad diwydiannol prysur, swnllyd, a pheryglus, o bosib, a oedd yn cynhyrchu powdr gwn, gan chwarae rhan allweddol yn Chwyldro Diwydiannol De Cymru. Deuai holl ynni'r Gwaith Powdr Gwn o ddŵr, gan ddefnyddio cyfuniad dyfeisgar o ffrydiau a thyrbinau, y gellir gweld eu holion hyd heddiw. Os oes mwy o amser gennych, beth am archwilio un o'r llwybrau cylchol, sy'n cynnwys dolenni dewisol, a ddangosir ar y map.

Er gwaethaf y perygl oedd ynghlwm â'r gwaith powdr, roedd hwn yn lle cymharol ddiogel i weithio ynddo, a phrin fu'r anafiadau yma.

Os hoffech glywed rhagor o straeon am weithio yma, gwrandewch ar y trac sain ar:

Now a secluded and quiet walk this was once a busy, noisy and potentially dangerous industrial site producing gunpowder, and playing a key part in the Industrialisation of South Wales. The Gunpowder Works were entirely powered by water using an ingenious combination of leats and turbines, the remains of which you can spot today. If you have more time why not explore one of the circular walks with optional loops shown on the map.

Despite the inherent danger, the gunpowder works here had a relatively safe track record with few injuries.

If you would like to hear more stories about working here listen to the audio at:

www.breconbeacons.org/audiotrails